# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 1 Mawrth 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

# 55(v5)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig

## Cwestiwn Brys

Gofyn i'r Prif Weinidog

**Jack Sargeant (Alyn and Deeside):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am effaith ymosodiad Rwsia ar Wcráin ar ddinasyddion a busnesau Cymru?

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**3 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant: Pwysau Iach, Cymru Iach 2022-2024**

(45 munud)

**4 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc**

(45 munud)

**5 Datganiad gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol: Urddas yn ystod mislif**

(45 munud)

**6 Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Y Cynllun Gweithredu newydd ar Anableddau Dysgu - TYNNWYD YN ÔL**

(0 munud)

**7 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg: Cymraeg 2050 - y camau nesaf**

(45 munud)

**8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022**

(20 munud)

**NDM7928** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 5) 2022 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Chwefror 2022.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Wyau (Cymru) 2022

(15 munud)

**NDM7929** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Wyau (Cymru) 2022 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Chwefror 2022.

**Dogfennau Ategol**

Memorandwm Esboniadol *(Saesneg yn unig)*

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rheoli Cymorthdaliadau

(15 munud)

**NDM7927** Rebecca Evans (Gŵyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Rheoli Cymorthdaliadau i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Gorffennaf 2021 a 6 Ionawr 2022, yn y drefn honno, yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil Rheoli Cymorthdaliadau *(Saesneg yn unig)*

**Dogfennau Ategol**

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad (Memorandwm Rhif 2)

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro

**NNDM7937** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Cynnig bod Senedd Cymru, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheol Sefydlog 12.20(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y datganiad a'r cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu NNDM7935 a NNDM7936 gael eu hystyried yn y Cyfarfod Llawn ar 1 Mawrth 2022.

## Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar eitemau 11 a 12 gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud)

## 11 Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd – Cynnig 1

**NNDM7935** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6 yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd ynghylch 'Diddymu Deddf Crwydraeth 1824 etc' i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd *(Saesneg yn unig)*

## 12 Cynigion Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd – Cynnig 1

**NNDM7936 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau ym Mil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd ynghylch 'Gosod amodau ar orymdeithiau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar gynulliadau cyhoeddus', 'Gosod amodau ar brotestiadau un person', a 'Gorchmynion Carlam i Ddiogelu Mannau Cyhoeddus', i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 1 Mawrth 2022 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd *(Saesneg yn unig)*

## 13 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 2 Mawrth 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 24/02/2022 i'w hateb ar 01/03/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

1 OQ57728 **(e)**

Pa fentrau y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd â hwy i roi terfyn ar y stigma sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl ym Mhen-y-bont ar Ogwr?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

2 OQ57696 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun datblygu lleol newydd Caerdydd?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

3 OQ57708 **(w)**

Pa gefnogaeth sy'n cael ei roddi gan Lywodraeth Cymru i gefnogi milfeddygon?

**James Evans** *Brycheiniog a Sir Faesyfed*

4 OQ57691 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i hyrwyddo Dydd Gŵyl Dewi?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

5 OQ57692 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu gwasanaethau acíwt ac achosion brys yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn y dyfodol?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

6 OQ57729 **(e)**

Pa sicrwydd y mae'r Prif Weinidog wedi'i geisio gan Lywodraeth y DU ynghylch y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i ymateb i amgylchiadau iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â'r coronafeirws?

**Peter Fox** *Mynwy*

7 OQ57709 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella mynediad at wasanaethau arbenigol i bobl sy'n byw gyda chlefyd niwronau motor?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

8

## OQ57684 (e)

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi'r gwaith o ddarparu hyfforddiant meddygol yng Ngogledd Cymru?

**Darren Millar** *Gorllewin Clwyd*

9

## OQ57718 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am y cynnydd o ran dynodi Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn barc cenedlaethol?

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

10

## OQ57714 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol profion COVID yng Nghymru?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11

## OQ57700 (w)

A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ail-gychwyn gwasanaethau gofal dydd yn Arfon wrth i gyfyngiadau COVID gael eu llacio?

**Mabon ap Gwynfor** *Dwyfor Meirionnydd*

12

## OQ57727 (w)

Sut bydd cynllun gofod newydd y Llywodraeth o fudd i bobl Dwyfor Meirionnydd?